Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymuned Y Ffridd
Gwalchmai
Caergybi
LL65 4SG

20/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymuned y Ffridd yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella priodol a chynllunio'n strategol i'w gweithredu

- Mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth addas i ymateb i'r argymhelliad. Mae arweinwyr ac athrawon yn cydweithio'n fuddiol i werthuso'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cynnwys arsylwi sesiynau dysgu a chraffu ar waith disgyblion yn achlysurol. Mae hyn yn cefnogi arweinwyr i adnabod ychydig o gryfderau a nifer gyfyngedig o feysydd i'w gwella.
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth am y meysydd gwella hyn yn briodol i osod blaenoriaethau gwella synhwyrol. Wrth symud ymlaen, maent yn cydnabod yr angen i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau cytûn yn fwy rheolaidd er mwyn cynllunio camau nesaf clir a phwrpasol.
- Er mwyn cryfhau'r gweithdrefnau gwerthuso ymhellach, mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i roi pwyslais cryfach ar werthuso medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu, yn ogystal â safon yr addysgu.

## Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a'u medrau rhifedd

- Mae arweinwyr a staff yn cefnogi datblygiad medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn systematig dros amser. Trwy gynllunio bwriadus, maent yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ysgrifennu ar draws ystod eang o ffurfiau.
- Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn effeithiol yn y ddwy iaith ar draws ystod dda o feysydd dysgu. Maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, atalnodi a pharagraffu, er enghraifft wrth iddynt lunio bywgraffiadau manwl a diddorol am anturiaethwr byd enwog.
- Lle mae'r arfer ar ei gorau, mae disgyblion yn ymateb yn gynyddol effeithiol i adborth ac yn gwella eu gwaith ysgrifennu'n briodol. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i gryfhau a sicrhau cysondeb yr arfer hon ymhellach ar draws yr ysgol.
- Ar y cyfan, mae staff yn cynllunio'n bwrpasol ac yn darparu profiadau dysgu addas sy'n cefnogi datblygiad medrau rhifedd disgyblion ar draws y meysydd dysgu yn briodol.
- Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion yn briodol ac yn cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas yn eu medrau rhifedd dros amser.
- Yn yr arferion gorau, mae'r disgyblion hŷn yn cymhwyso ystod dda o fedrau rhifedd yn fwriadus mewn cyd-destunau ystyrlon a pherthnasol. Er enghraifft, wrth gynllunio parti Nadolig, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau fel elw a cholled yn bwrpasol. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i gysoni'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i feithrin a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn.
- Ar draws y ddarpariaeth, mae staff yn darparu ystod briodol o adnoddau, gan gynnwys adnoddau gweledol a waliau dysgu bwriadus, sy'n cefnogi disgyblion i drafod camsyniadau, ac i ymarfer a datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd yn bwrpasol.
- Mae'r pennaeth yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu proffesiynol a chydweithio yn briodol. Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i fynychu gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol, sy'n cynnwys ymweld ag arfer effeithiol mewn ysgolion eraill. Mae hyn wedi arwain at gyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol yn fwriadus i gefnogi cynnydd medrau rhifedd y disgyblion ieuengaf yn bwrpasol.

Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602142

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol